**Canllawiau ar gyfer Rôl Cynrychiolydd Rheol 1.2**

Mae Gorchymyn Amddifadu o Ryddid Cymunedol yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Dyma'r Gyfraith ynghylch yr hyn i'w wneud pan na all pobl wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

**Beth yw Cynrychiolydd Rheol 1.2?**

- Efallai y bydd pobl angen gofal a chefnogaeth ble maent yn byw. Os nad oes gan yr unigolyn alluedd ac o ganlyniad i hyn nad yw'n gallu gwneud penderfyniadau drosto'i hun, bydd angen ei amddiffyn yn fwy a gall gael ei amddifadu o'i ryddid i'w helpu i'w gadw'n ddiogel.
- Gelwir yr amddiffyniad ychwanegol yn Orchymyn Amddifadu o Ryddid Cymunedol.
- Mae'r gyfraith yn sicrhau, os bydd angen y Gorchymyn, ei fod er budd pennaf yr unigolyn ac yn sicrhau bod unigolion sy'n ymwneud â'u gofal yn meddwl yn ofalus iawn am y penderfyniadau y maen nhw'n eu gwneud ar gyfer yr unigolyn.
- Os yw unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid, mae'n rhaid cael cynrychiolydd a all ymweld â nhw a sicrhau bod gofal yr unigolyn yn ddiogel ac yn angenrheidiol. Mae'n rhaid iddynt weithredu er budd pennaf yr unigolyn. Ar gyfer Gorchymyn Amddifadu o Ryddid Cymunedol gelwir hyn yn Gynrychiolydd Rheol 1.2.
- **Un unigolyn yn unig y gellir ei benodi i fod yn gynrychiolydd.**

**Pwy sy'n gallu bod yn gynrychiolydd Rheol 1.2?**

- Gall aelod o'r teulu, neu ffrind, neu gynrychiolydd cyflogedig ymgymryd â'r swyddogaeth hon.
- Mae'n rhaid i gynrychiolydd:
  - Fod yn 18 oed neu'n hŷn
  - Cadw mewn cysylltiad wyneb yn wyneb yn rheolaidd â'r unigolyn perthnasol
  - Bod yn fodlon cael ei benodi'n gynrychiolydd
  - Bod yn fodlon herio amddifadu o ryddid os yw'r unigolyn yn gwrthwynebu, waeth beth fo'ch safbwyntiau personol.

**Mae'n rhaid i Gynrychiolydd Rheol 1.2...**

- Ddarparu cefnogaeth barhaus, cadw mewn cysylltiad, a gweld yr unigolyn yn eu cartref yn rheolaidd.
- Sicrhau bod y bobl sy'n rhoi gofal neu driniaeth yn cynnal hawliau'r unigolyn a gwneud yr hyn sydd orau ar ei gyfer bob amser.
- Cynorthwyo'r unigolyn i leisio eu pryderon a mynegi eu dymuniadau (hyd yn oed os ydych yn anghytuno â'r rhain).
- Helpu'r unigolyn i wneud cwyn os oes angen.
- Gofyn am adolygiad o ofal os nad yw'r unigolyn yw'n fodlon â'r amddifadedd.
- Gwneud cais i'r Llys Gwarchod ar ran yr unigolyn os oes angen. Gallai hyn gynnwys cysylltu â chyfreithiwr.

Mae'n RHAID i chi wneud cais i'r Llys Gwarchod os yw'r unigolyn yn gwrthwynebu eu trefniadau gofal a chefnogaeth, hyd yn oed os ydych chi'n credu fod hyn yn addas iddynt.

Fel Cynrychiolydd Rheol 1.2 gallwch ofyn am gefnogaeth gan Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol. Bydd yr Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol yn rhoi cymorth ychwanegol i chi os bydd ei angen arnoch, a byddan nhw'n eich helpu chi i wneud y defnydd gorau o'r broses adolygu a'r Llys Gwarchod.



***This document is also available in English.***